# Arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion pan fyddwch yn arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol i wella gofal a chymorth i unigolion. Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i dechnoleg ddigidol arloesol a chyfredol, rhoi newidiadau ar waith, a chefnogi sgiliau digidol pobl eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arwain cyfleoedd am arloesedd ddigidol yn y gweithle
2. gweithio ar y cyd i ddatblygu systemau a gweithdrefnau ar gyfer dod o hyd i, gweithredu, cefnogi ac adolygu'r defnydd o dechnoleg ddigidol
3. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth ganfod, gweithredu, cefnogi ac adolygu’r defnydd o dechnoleg ddigidol
4. sefydlu manteision defnyddio technoleg ddigidol i wella’r gofal a’r cymorth i unigolion
5. cefnogi unigolion ac eraill i gael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau, neu’r cymorth ymarferol sydd eu hangen arnyn nhw i ddefnyddio technoleg ddigidol
6. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill ar reoli risg a chymryd risgiau cadarnhaol gydag offer digidol, dyfeisiau a phlatfformau ar-lein
7. cefnogi unigolion ac eraill i nodi, gosod a chael mynediad at amgylcheddau sy’n cefnogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol
8. rhoi gweithdrefnau ar waith i gefnogi unigolion ac eraill i archwilio ac ymgyfarwyddo ag offer a dyfeisiau digidol ar eu cyflymder eu hunain
9. annog hyder a hunan-barch unigolion ac eraill drwy brofiadau digidol cadarnhaol
10. datblygu eich hunaniaeth ddigidol eich hun a hunaniaeth ddigidol eich gweithle
11. sefydlu dulliau i unigolion ac eraill adolygu sut mae technoleg ddigidol wedi cwrdd â’u dewisiadau a'u hanghenion, gan nodi a mynd i’r afael â newidiadau
12. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau eich hun i adnabod technoleg ddigidol a’i rhoi ar waith er mwyn gwella’r gofal a’r cymorth i unigolion

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut y gall technoleg ddigidol wella’r gofal a’r cymorth i unigolion
2. y rôl arweinyddol wrth gefnogi arloesedd ddigidol yn y gweithle
3. sut mae cydweithio ag eraill i fanteisio ar y gwahanol arbenigedd a sgiliau sydd ganddyn nhw wrth ddefnyddio technoleg ddigidol
4. sut mae creu profiadau digidol cadarnhaol i unigolion drwy gymhwyso egwyddorion sy'n ystyriol o drawma
5. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ddefnyddio technoleg ddigidol
6. sut mae arwain ar urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i wella’r gofal a’r cymorth
7. egwyddorion rheoli risg a chymryd risgiau cadarnhaol gyda thechnoleg ddigidol
8. sut mae cydweithio ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar y ffordd mae technoleg ddigidol wedi cwrdd â dewisiadau ac anghenion
9. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol drwy wella mynediad at dechnoleg ddigidol a’r defnydd ohoni gan unigolion ac eraill
10. sut mae ymateb i broblemau a phryderon ynghylch arloesedd a thechnoleg ddigidol i wella’r gofal a’r cymorth
11. sut mae datblygu systemau a phrosesau i gynorthwyo unigolion ac eraill gyda llythrennedd digidol
12. sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddiwylliant cadarnhaol ym maes arweinyddiaeth ddigidol, a sut mae adolygu a gwerthuso’r wybodaeth honno
13. sut mae defnyddio technoleg ddigidol a data i ddarparu gwybodaeth i wella iechyd, llesiant ac annibyniaeth unigolyn
14. y gofynion cofnodi ac adrodd sy’n ymwneud â thechnoleg ddigidol wrth ddarparu gofal
15. sut mae gwneud unrhyw atebion digidol yn gynaliadwy, gan gynnwys unrhyw strategaethau ymadael posibl os oes dibyniaeth ar fathau o dechnoleg ddigidol
16. theorïau sy’n berthnasol i arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol
17. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol
18. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol
19. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol, a sut i fynd i'r afael â hyn

20. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain ar ddefnyddio technoleg ddigidol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD422 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | technoleg digidol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |